**Eluned Morgan AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref ER
Ein cyf/Our ref EM/05717/24

Beca Roberts
Cadeirydd
Cyngor Gwynedd

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

17 Mehefin 2024

Annwyl Beca Roberts

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Mai ynghylch penderfyniad Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru i gyfuno gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd o ganolfannau awyr yn y Trallwng a Chaernarfon gan Wasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys Cymru (EMRTS), er mwyn eu lleoli mewn canolfan newydd yn y Gogledd.

Rwy'n cydnabod pa mor gryf yw teimladau ymysg cymunedau yn y Canolbarth a'r Gogledd ynglŷn â'r mater hwn. Cyfrifoldeb Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru yw'r penderfyniad i wneud hyn, ac mae'n bwysig bod y penderfyniad yn parhau'n gyfrifoldeb y Cyd-bwyllgor hwnnw, gan na fyddai’n briodol i Lywodraeth Cymru wneud y math hwn o benderfyniad gweithredol.

Bwriad Cyd-bwyllgor Comisiynu'r GIG ac Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yw sicrhau bod mwy o bobl ym Mhowys a'r Gogledd yn gallu cael yr ymateb gofal critigol arbenigol a ddarperir gan EMRTS, pan fo angen. Rwyf wedi cael sicrwydd y bydd y penderfyniad hwn hefyd yn galluogi EMRTS i ehangu’r gwasanaeth a ddarperir yn ystod y nos ar gyfer pobl yn y Gogledd a’r Canolbarth, gan arwain at ganlyniadau gwell i bobl sydd â chyflyrau sy’n bygwth eu bywydau. Mae hynny’n adeiladu ar y trefniadau blaenorol lle y darparwyd gwasanaeth o Gaerdydd yn unig yn ystod y nos.

Gallaf eich sicrhau bod yr arbenigwyr sy'n ymwneud â chynllunio a darparu'r gwasanaethau hyn – Cyfarwyddwr Clinigol EMRTS, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, a chomisiynwyr y gwasanaeth – yn gytûn mai cyfuno gwasanaethau fel hyn yw'r penderfyniad cywir i bobl Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care